

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn
Targed1	Darllen yn ehangach er mwyn cefnogi'r pwyntiau a wneir	Yr wyf wedi darllen yn ehangach er mwyn gallu cefnogi fy mhwyntiau
Targed 2	Defnyddio'r data wreiddiol yn ehangach	Yr wyf wedi gwneud yn siŵr fy mod wedi defnyddio'r data a rhoddir i mi yn ehangach
Targed 3	Gwirio a gloywi'r gwaith cyn ei gyflwyno	Yr wyf wedi ail-ddarllen fy ngwaith er mwyn cywiro unrhyw wallau

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun

Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio feirniadol

ar y camau gweithredu, yr effaith a'r Sylfaen

dystiolaeth.

Yn ystod y traethawd hwn y byddaf yn canolbwyntio ar un agwedd o Gynllun Datblygu Ysgol fy lleoliad cyntaf. Am yr hwn yr wyf wedi dewis canolbwyntio ar un o'u chwech blaenoriaethau sef datblygu lles pob disgybl. Wrth wneud yr hyn byddaf yn adfyfyrio yn feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r Sylfaen dystiolaeth. Er mwyn gwneud yr hyn, byddaf yn edrych ar Gynllun Datblygu'r ysgol, gan ddilyn canllawiau BERA (2018) i sicrhau anhysbysrwydd, ac i ganolbwyntio ar yr hyn maent wedi dewis datblygu wrth feddwl am les pob disgybl. Ynghyd efo hyn, byddaf yn edrych ar yr hyn mae'r ysgol wedi datblygu yn barod yn y blynyddoedd diwethaf am les pob disgybl.

Er mwyn gallu cael golwg cyfan o'r un agwedd ac er mwyn gallu ei adfyfyrio yn feirniadol mae rhaid cael cyd-destun yr ysgol. Mae'r ysgol o dan sylw yn cael ei leoli yn Sir Gaerfyrddin gyda 1420 o ddisgyblion yn ei fynychu. Yn ôl cynllun datblygiad yr ysgol mae 19.5% o'r disgyblion ar y rota am brydiau ysgol am ddim, sydd, yn ôl Estyn (2019), yn uwch na'r cyfartaledd gwladol. Ynghyd efo hyn, mae 27 disgybl yn cael ei ystyried fel disgyblion sy'n cael ei edrych ar ôl. Hefyd, mae 31% o ddisgyblion efo anghenion dysgu ychwanegol ac 36 disgybl efo Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol eisiau sicrhau eu bod yn cefnogi pob disgybl wrth feddwl am eu les.

Mae'r ysgol o dan sylw yn datblygu Cynllun Datblygu yn flynyddol, gan edrych arno yn gyson er mwyn eu hadnewyddu. Disgrifiwyd Joe O'Hara (2001) bod cynllunio Cynllun Datblygu Ysgol yn rhan annatod o wella'r ansawdd o ysgolion a'r addysg. Gwelir bod yr ysgol gwneud yr hyn mae O'Hara yn ei ddweud er mwyn gwella cynnydd a datblygiad addysg a bywydau disgyblion. Gwelir bod yr ysgol yn gwneud ei Chynllun Datblygu gan gymryd rhan mewn ymchwil cyson ac yn adnewyddu'r Cynllun Datblygu er mwyn sicrhau bod agweddau o'r Cynllun Datblygu yn cael ei weithredu a datblygu i'r effaith fwyaf. Mae Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu'r hyn gan ddweud, wrth i ysgol hunanwerthuso ei pherfformiad mae'n arwain at adnabod y gwelliannau sydd angen cael ei wneud o fewn yr ysgol. Ond, nid yw pob Cynllun Datblygu pob yr ysgol yr un fath. Mae'r gwelliannau sy'n cael ei rhoi yn Gynlluniau Datblygu yn amrywio o ysgol i ysgol. Gellir dweud hyn oherwydd mae amgylchedd ysgolion yn amrywio ac mae angen i'r targedau o fewn yr ysgol cyd-fynd efo'r gwelliannau sydd angen.

Dywed Graham Handscomb (2019) bod pob agwedd o weithrediad yr ysgol, yn cynnwys dysgu ac addysgu, yn dod i lawr i'r ymchwil mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn. Felly, wrth ddatblygu Cynllun Datblygu mae ymchwil yn holl bwysig i'r ysgol. Mae'r Cynllun Datblygu yn cael ei chynllunio er mwyn sicrhau gwelliannau dros yr ysgol yn yr agweddau mae'r ysgol yn credu bod eu hangen. Dywed Brighthouse (2013), bod yna cydrannau allweddol mae angen ystyried wrth gynllunio Cynllun Datblygu Ysgol sef, eglurder, her, cyfathrebu, cysondeb, data, gwytnwch, cyflymder, ymdrech a rhagoriaeth. Ynghyd efo ymchwil, mae data yn holl bwysig i'r cynlluniad o'r Cynllun Datblygu. Dadleuodd Victoria Bernhardt (2013) bod angen i ysgolion i ddadansoddi ac edrych ar bob darn o ddata sydd ganddynt er mwyn gallu cynllunio Cynllun Datblygu llwyddiannus. Er i hyn, mae Lorna Earl a Steven Katz (2006) yn dadlau yn erbyn hyn gan ddweud bod ysgolion yn defnyddio ormod o ddata i gynllunio i ddatblygu gwelliannau o fewn yr ysgol, gan ddweud bod angen mwy na dim o'n data er mwyn i ysgolion i wella.

Yr agwedd o dan sylw yn y traethawd yn nhermau Cynllun Datblygu'r ysgol yw lles disgyblion. Mae nifer o academyddion yn dadlau dros ddadansoddiad o les gyda Debbie Watson a Carl Emery (2012) bod lles disgyblion yn dod o gefndir cymdeithasol ac emosiynol. Dros y blynyddoedd diwethaf mae lles wedi dod yn rhan annatod o bob rhan o fywyd gyda phobl yn dod yn fwy ymwybodol o broblemau lles. Atgyfnerthwyd McLeod a Wright (2015) yr hyn gan ddweud bod y galwad am les yn fawr. Ond, yna yn mynd ymlaen i ddweud ei fod yn gallu meddwl popeth neu dim byd. Ond, wrth edrych ar ffigyrau mae lle lles mewn ysgol yn dal rhan bwysig. Mae dogfen gan Wasanaeth Cenedlaethol Cymru (2017) yn rhagfynegi bod tu fewn i un ystafell dosbarth bydd o leiaf tri disgybl yn dioddef o broblemau lles. I gyd-fynd efo hyn, mae Time to Change Wales (2017) yn dweud bydd un mewn pob deg o bobl ifanc yn dioddef o broblem lles meddylion efo tri allan o bedwar yn ofn o ymateb ei chyd cyfoedion. Er i hyn, wrth feddwl am les tu fewn ysgol mae rhaid cymryd i mewn i ystyriaeth pob adran o broblemau meddyliol, bwllo, cefndir cartref y disgyblion, gydag Estyn (2013-2014) yn dweud bod disgyblion sef efo anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion sy'n cwmpo o dan y braced LGBTQ+ neu ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol, crefyddol neu galed yn fwy tebygol o gael problemau lles.

Wrth ddelio efo lles mae nifer o academyddion yn pwysleisio'r effaith mae ysgolion yn gallu cael ar les disgyblion. Dywed Vélez (2013) yn dweud bod yr amgylchedd fwyaf canolog mewn datblygiad disgyblion yn nhermau ei lles yw ysgolion a bod ganddynt ddyletswydd i ddelio efo hyn am fod disgyblion yn gwario rhan fwyaf o'u fywydau ifanc tu fewn i'r amgylchedd ysgol. Mae Watson (2012) felly, yn dadlau gan ofyn y cwestiwn a dyle gwella lles disgyblion bod yn darged addysgeg yn ei hunain? Gyda Roffey (2016) yn ddweud bod lles disgyblion yn cael y fwyaf effaith ar beth a oedd yn digwydd iddynt tu fewn i'r ysgol.

Ynghyd efo hyn, mae nifer o academyddion yn gweld ysgol fel ffordd sy'n gallu addysgu plant i ymdopi efo problemau lles gyda Durlak et.al (2015) yn mynegi bod helpu disgyblion efo lles cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion er mwyn iddynt allu meddwl yn fwy positif o fewn yr ysgol ac yn y pendraw mewn bywyd ei hunain. Er i hyn, yn ôl Vélez mae'n anodd i ysgolion i baratoi a chynllunio i wneud hyn mewn ffordd effeithiol. Ond, yn y traethawd hwn y byddaf yn edrych i mewn i sut mae Cynllun Datblygu ysgol X yn ymdopi a cheisio cynllunio i wellhau'r hyn.

Gwelir bod chwe blaenoriaeth i'r Cynllun Datblygu ysgol o dan sylw. Y chwe blaenoriaeth yw;

1. Gwella cynnydd disgyblion
2. Datblygu lles pob disgybl
3. Peilota eflennau o'r cwricwlwm newydd ar gyfer dysgwyr CA3
4. Datblygu safonau dysgu ac addysgu – cynning cyfleodd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau rhifedd a chymhwysedd ddigidol
5. Datblygu systemau tracio
6. Datblygu safonau arweinyddiaeth ymhellach a phrosesau hunan-werthuso

Er i hyn, yr wyf wedi penderfynu canolbwyntio ar y datblygiad o les pob disgybl. Mae'r Cynllun Datblygu yn nodi y bydd yr ysgol yn datblygu model cadarn, wedi'i seilio ar dystiolaeth i werthuso lles, i atgyfnerthu protocolau a gweithdrefnau i gefnogi presenoldeb disgyblion, i fonitro a gwerthuso darpariaeth i sicrhau bod pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion cymhleth, yn cael cefnogaeth effeithiol ac yn olaf i adolygu polisi gweithdrefn ymddygiad newydd. Yr uchod yw'r elfennau mae'r ysgol am ddatblygu wrth feddwl am les pob disgybl.

Ynghyd efo'r uchod mae'r ysgol wedi cynnwys meini prawf llwyddiant i sicrhau eu bod yn bwrw pob targed a rhoddir. Mae hyn yn cynnwys, i wella sgoriau proffiliau lles, i sicrhau ymyrraeth brydlon wrth edrych ar holiaduron lles, i bresenoldeb yr ysgol cyrraedd 95% ac i ddatblygu strategaethau i leihau gwaharddiadau.

Gwelir hefyd bod yr ysgol wedi tracio'r datblygiadau dros y blynyddoedd gan ddefnyddio lliw er mwyn dangos gweithrediad pob targed sydd o dan ddatblygiad. Er i hyn, wrth edrych ar Gynlluniau Datblygu blaenorol nid yw'r ysgol wedi canolbwyntio ar les disgyblion nes 2019. Felly, gellir gweld nad yw les wedi bod o flaenoriaeth i'r ysgol i ddatblygu nes yr hyn. Ond, gellir dadlau bod yr ysgol wedi dod yn ymwybodol o'r pwysigrwydd lles disgyblion wrth i lefelau lles meddyliol mewn plant cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Un dull posib a gall wedi dod ag hyn mewn i'r golau i'r ysgol yw'r defnydd o holiaduron lles sy'n cael eu dosbarthu i ddisgyblion. Wrth i'r achosion a niferoedd

o ddisgyblion sy'n ymateb mewn ffordd sy'n achosi gofid i'r ysgol cynyddu mae'n bosib bod lles wedi dod i'r flaenoriaeth.

Mae Cynllun Datblygiad Ysgol X hefyd yn sôn am sut maent yn mynd i fynd ati i geisio gwellhau a datblygu eu targedu wrth feddwl am les y disgyblion yn yr ysgol. Y gweithrediadau sy'n cael i'w nodi yn y Cynllun Datblygu yw:

1. Atgyfnerthu protocolau a gweithdrefnau bugeiliol
2. Datblygu rôl system tracio'r ysgol gyfan ar gyfer lles
3. Mireinio protocolau presenoldeb
4. Cynyddu ymwybyddiaeth staff i fecanweithiau cymorth amlasiantaethol
5. Sicrhau bod cynghorau ysgol yn datblygu lles pob disgybl
6. Gwella agwedd disgyblion at ddysgu, gan gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau disgyblion

Felly, wrth edrych ar y Cynllun Datblygiad, wrth ystyried yr uchod i gyd, gellir gweld bod yr ysgol wedi bod yn drylwyr wrth feddwl am eu targedau, y meini prawf llwyddiant a'i weithredoedd er mwyn gallu bwrw pob targed a datblygu lles pob disgybl.

Yn ystod y sut mae'r ysgol yn mynd i wneud yr hon mae yna dyniad tuag weithio efo rhieni er mwyn sicrhau datblygiad lles disgyblion. Mae hyn yn seiliedig efo ei rhaglen 'Parental Involvement Plan' neu 'PIP'. Hyn ydy, rhaglen sy'n cynnal gweithdai i rieni'r disgyblion unwaith y mis er mwyn i'r ysgol hyfforddi rhieni i helpu i'w phlant efo waith ysgol. Gwelir bod yr ysgol hefyd wedi defnyddio adborth a data o ganrannau presenoldeb ac adborth o'r gweithdai 'PIP' er mwyn gallu eu datblygu yn bellach. Mae hyn yn cefnogi lles disgyblion wrth i rieni dysgu am les a gwaith ysgol ac yn y pendraw yn gallu cefnogi disgyblion efo eu gwaith a bywyd ysgol. Ynghyd efo hyn, mae 'PIP' yn cysylltu efo presenoldeb disgyblion wrth i rieni dysgu am bwysigrwydd presenoldeb y disgyblion yn yr ysgol. Yn ogystal â 'PIP' mae pwyslais ar hyfforddi athrawon a staff yr ysgol er mwyn gallu ymdrin efo lles disgyblion yn well ac mewn ffordd briodol. Bydd yr hyn yn buddio datblygiad lles disgyblion wrth i athrawon a staff efo gallu a'r wybodaeth i ymdrin efo agweddau eang o les.

Er mwyn adfyfrio a gwerthuso ar yr hyn mae'r ysgol wedi nodi yn ei Chynllun Datblygu gellir dweud ei fod wedi rhoi canllawiau a gweithredoedd er mwyn gallu datblygu lled y disgyblion tu fewn i'r ysgol. Er i hyn, mae nifer yn dadlau bod gydag ysgolion tasg galed er mwyn gwella lles disgyblion tu fewn i amgylchedd ysgol. . Dywed Powell (2018), "Despite the increase in wellbeing-related policy, there has been little evidence-based direction on how to systematically define, plan, implement and evaluate effective wellbeing agendas, particularly at a whole-school level." (tud 515). Nid oes llawer o ymchwil ar gael i

ysgolion i allu gwella lles disgyblion mewn ffordd hollol lwyddiannus. Ond, er i hyn mae Pollard a Lee (2003) wedi mynegi bod yna pum gwahanol agwedd i les sef, corfforol, seicolegol, gwybyddol, cymdeithasol ac economaidd. Ond, yn wahanol i hyn mae Soutter et al. (2011) yn mynegi bod saith gwahanol agwedd, er bod rhai yn debyg. Mae hwn yn cynnwys, arfarniadau a gweithredoedd. Er i hyn, mae Roffey (2016) yn pwysleisio'r pwysigrwydd sydd gan ysgolion i helpu a dysgu am les ac i geisio helpu efo unrhyw anghenion sydd gan y disgyblion. I ddadlau yn erbyn yr hyn, mae Vélez (2013) wedi mynegi bod yna sawl cwestiwn efo ysgolion efo sut i ddelio efo lles pob disgybl gan hefyd dweud bod ymddygiad athrawon yn cael effaith ar les emosiynol disgyblion. Felly, wrth edrych ar yr hyn, gellir dadlau bod yna lle a phwysigrwydd i ysgolion i ymyrryd a chymryd rhan mewn lles disgyblion ond y mae'n dod efo'i thrafferthion.

Er i'r uchod gwelir wrth edrych ar y Cynllun Datblygu bod gwerthusiad o'r gweithredoedd i gyd yn amrywio o gynnydd da neu ddigonedd o gynnydd. Ond, er i hyn mae yna bosibilrwydd i'r ysgol ehangu ei ddatblygiad wrth feddwl am les disgyblion gan werthuso a gwellhau'r rhaglennu a weithredodd y maent yn gwneud yn barod. Wrth ystyried rhaglen 'PIP' gall yr ysgol cynnal mwy nag un gweithdy'r mis ar wahanol ddyddiau er mwyn sicrhau bod amryw a nifer fawr o rieni yn gallu ei fynychu. Bydd hyn yn fudd i les ddisgyblion wrth i rieni dysgu am yr hyn sydd angen iddyn nhw wneud fel rhiant i'w chefnogi yn ei yrfa ysgol. Mae'r niferoedd sy'n mynychu ac yn gallu mynychu'r gweithdai hyn yn ymddangos. Ynghyd efo hyn, mae'r syniad o hyfforddi athrawon yn dda am iddo ehangu eu gwybodaeth o les disgyblion. Er i hyn, er mwyn gallu gwneud yr hyn yn effeithiol bydd angen hyfforddi niferoedd o athrawon a staff er mwyn gallu gwneud datblygiad. Mae Estyn (2013) yn cefnogi'r hyn gan ddweud bod trwy hyfforddi staff y mae'n ffurfio'r sylfaen am weithle sy'n datblygu. I wneud yr hyn mewn ffordd effeithiol gall yr ysgol cynnal dyddiau hyfforddiant mewn swydd sy'n ffocysu ar les disgyblion. Gall yr awgrymiadau hyn fod o fudd i'r ysgol wrth iddynt geisio datblygu lles y disgyblion gan ddefnyddio ei Chynllun Datblygu.

I gloi, mae'r traethawd hwn wedi bod yn fudd ac wedi rhoi mewnwelediad i mewn i Gynllun Datblygu Ysgol X. Wrth ganolbwyntio ar les disgyblion y mae wedi rhoi mewnwelediad i'r gweithredoedd, cryfderau, gwendidau a'r treialon i geisio gwella a monitro lles disgyblion tu fewn i amgylchedd ysgol. Wrth wneud yr hyn, yr wyf wedi dysgu am y niferoedd o ffurf a gall lles disgyblion cael ei wella tu fewn i ysgol. Credaf y bydd hyn o fudd i mi wrth feddwl am fy ngyrfa broffesiynol yn y dyfodol am i bwysigrwydd les disgyblion ddod fwy a fwy i'r arwyneb. Y bydd yn fy ngalluogi i i allu i ddefnyddio Cynllun Datblygu Ysgol er mwyn allu ceisio datblygu a gwellhau ar les disgybl.

Llyfryddiaeths

BARRY, M.M., CLARKE, A.M. and DOWLING, K., 2017. Promoting social and emotional well-being in schools. *Health Education*, 117(5), pp. 434-451

Barry, Margaret M., Clarke, Aleisha M., & Dowling, Katherine. (2017). Promoting social and emotional well-being in schools. *Health Education*, 117(5), 434-451.

Bernhardt, Victoria. (2013) *Data Analysis for Continuous School Improvement*. Routledge

Brighouse, T. (2013) *The A-Z of school improvement : principles and practice*. London: London : Bloomsbury.

British Educational Research Association (BERA) (2018) *Ethical guidelines for educational research*. 4 th edn. Available at:
<https://www.bera.ac.uk/researchersresources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018> (Accessed: 10th March 2020)

Clarke, A.M., Morreale, S., Field, C.A., Hussein, Y., & Barry, M.M. (2015), What works in enhancing social and emotional skills development during childhood and adolescence? A review of the evidence on the effectiveness of school-based and out-of-school programmes in the UK. A report produced by the World Health Organization Collaborating Centre for Health Promotion Research, National University of Ireland Galway. Available online at:
http://www.eif.org.uk/wp-content/uploads/2015/08/Review-of-Social-and-Emotional-Skills-Based-Intervention_ReportWEB-VERSION-1.pdf (Accessed on 10th March 2020)

David H. Hargreaves (1995) *Self-managing Schools and Development Planning — chaos or control?*, *School Organisation*, 15:3, 215-227,

Durlak, J.A., Domitrovich, C.E., Weissberg, R. P., and Gullotta, T.P. (2015), *Handbook of Social and Emotional Learning: Research and Practice*, Guilford Press, New York.

Durlak, J.A., Weissberg, R.P., Dymneci, A.B., Taylor, R.D., & Schellinger, K.B. (2011), “The impact of enhancing students’ social and emotional learning: A meta-analysis of school-based universal interventions”, *Child Development*, Vol. 82, No.1, pp. 405-432

Earl, Lorna M. & Katz, Steven. (2006) *Leading Schools in a Data-Rich World: Harnessing Data for School Improvement*. Corwin Press.

Estyn Annual Report (2013-14) Available at:
<https://www.estyn.gov.wales/thematicreports/annual-report-2013-2014> (Accessed: 10th March 2020)

Estyn Inspection Report (2019) Inspection of school x. Available at:

<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/████████████████████>

████████████████████ (Accessed 10th March 2020)

Godfrey, D and Handscomb, G. (2019) Evidence use, research-engaged schools and the concept of an eco system.. In: Godfrey, D. and Brown, C. An Ecosystem for ResearchEngaged Schools: Reforming Education Through Research. London & New York: Routledge. 4-21

Hargreaves, David H & Hopkins, David (1994) Development Planning for School Improvement. A&C Black.

Harris, A. (2002) School improvement: What's in it for schools? New York: Routledge. Falmer

Jim, Knight. (2014) Strategic Planning for School Managers. Routledge

Mind Over Matter: A report on the step change needed in emotional and mental health support for children and young people in Wales (2018) Llywodraeth Cymru. Available at: <https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-e.pdf> (Accessed on 10TH March 2020)

O'Hara, Joe & McNamara, Gerry (2001) Process and Product Issues in the Evaluation of School Development Planning. SAGE publications Vol 7(1); 99 – 109

Powell, M.A., Graham, A., Fitzgerald, R. et al. (2018) Wellbeing in schools: what do students tell us?. Aust. Educ. Res. 45, 515–531

Roffey, Sue, Williams, Anthony, Greig, Anne & MacKay, Tommy. (2016) Mental Health and Wellbeing in Schools: Concerns, Challenges and Opportunities. Educational & Child Psychology Vol. 33 No.4 p.p. 5 -7

Svane, Denise, Evans Neus & Carter, Carter Margaret- Anne.(2019) 'Wicked wellbeing: Examining the disconnect between the rhetoric and reality of wellbeing interventions in schools.' Australian Journal of Education. Vol. 63 (2) 209 – 231

Time to Change Wales. Available at:

<https://www.timetochangewales.org.uk/en/campaigns/wecanwewill/> (Accessed on 10th March 2020)

VÉLEZ, C.,E. and GILLHAM, J.E., 2013. Special issue: Promoting Wellbeing in Schools. International Journal of Emotional Education, 5(2), pp. 1-4.

VELLA-BROKRICK, D., 2016. Optimizing the Art and Science of Well-Being in Schools. *Communique*, 45(1), pp. 4-1.

Watson, Debbie, Emery, Carl & Bayliss, Phil with Boushel, Margaret and McInnes, Karen (2012) *Children's Social and Emotional Wellbeing in Schools*. Policy Press

Watson, Debbie, Emery, Carl. (2012) *Children's Social and Emotional Wellbeing in Schools: A Critical Perspective*. Policy Press.

Welsh Government (2014) *School development plans*. Available at <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/school-development-plans.pdf> (Accessed on 10th March 2020)